

**Taith fy
mywyd!**



Popeth amdanaf fi

?

Teulu a phobl sy'n bwysig i mi

?

Fy hawliau a dweud fy nweud

?

Fy addysg a chynlluniau ar
gyfer y dyfodol

?

Fy iechyd a fy Lles

?

Mae **Taith fy mywyd!** yn gêm newydd i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ei defnyddio wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc mewn gofal.

Mae'n gêm rolïo'r dis syml lle gall plant a phobl ifanc ddweud eu dweud ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, gofyn cwestiynau a chymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gofal a chymorth.

Nid yw i fod i gymryd gormod o amser - mae'n bosibl chwarae mewn 5 munud neu 30 munud! Mae'n bosibl ei ddefnyddio yn ystod ymweliad neu gyfarfod i dorri'r îâ, cael hwyl a dechrau sgwrs.

Chwarae a hawliau plant - pam mae chwarae mor bwysig?

- Mae chwarae'n helpu plant a phobl ifanc i gadw'n ddiogel, yn iach ac yn hapus
- Mae'n rhoi cyfleoedd iddyn nhw archwilio a deall eu diwylliant
- Mae'n gynhwysol ac yn chwalu rhwystrau

Mae gan blant hawl i chwarae o dan yr **UNCRC (Erthygl 31)**, mae ganddyn nhw hefyd hawl i ddweud eu dweud wrth wneud penderfyniadau a chael rhywun yn gwrandao arnyn nhw (**Erthygl 12**). Mae'r gêm hon yn pontio'r bwlch rhwng y ddau ac yn gwahodd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i wneud pethau'n wahanol!

Mae cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yn un o egwyddorion allweddol **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Nawr yn fwy nag erioed, dylid cynnwys lleisiau plant a phobl ifanc wrth gynllunio gofal a chymorth.

Taith fy mywyd! Egwyddorion allweddol chwarae:


- Mae **cymryd tro, rhannu, siarad a myfyrio** yn egwyddorion allweddol o ran yr offeryn hwn
- Mae ystyriaeth yn cael ei roi i'r **anghydbwysedd pŵer** rhwng oedolyn a phlentyn
- **Mae'n ymwneud â pherthnasoedd!** Gall y gêm hon helpu i sefydlu ymgysylltiad da a ffiniau diogel. Mae plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi gweithwyr proffesiynol sy'n cymryd amser i ofyn iddyn nhw amdany'n nhw
- **Yr egwyddor pasio** - gall plant a phobl ifanc (ac oedolion!) basio unrhyw gwestiwn os nad ydyn nhw am ateb, mae dewis yn bwysig i blant a phobl ifanc
- **Ysgrifennu/dweud/tynnu llun** - mae plant a phobl ifanc yn penderfynu sut maen nhw am ateb
- **Cymysgedd o gwestiynau hwyliog a chwestiynau mwy difrifol** - ni ddylai ymweliadau a chyfarfodydd fod yn rhy ffurfiol
- **Mae'n bosibl chwarae yn unrhyw le, dim ond argraffu a chychwyn arni** - Mae wedi'i chynllunio i fod yn gyflym ac yn hawdd

Ar gyfer pwy mae'r gêm?


Gall unrhyw weithiwr proffesiynol ddefnyddio'r offeryn hwn - gweithiwr cymdeithasol, swyddog adolygu annibynnol, rhiant maeth, nyrs, gweithiwr preswyl, eiriolwr - unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn gofal.

Sut i chwarae

- Y chwaraewr ieuengaf fydd yn rholio gyntaf
- Mae'r lliw rydych chi'n glanio arno yn dangos lliw y cwestiwn i'w ddewis
- Cymerwch eich tro, atebwch y cwestiynau a chofiwch y gallwch chi ysgrifennu/tynnu llun/dweud a gallwch chi basio bob amser
- Symudwch o amgylch y trac rasio unwaith neu hyd at 5 gwaith - yn dibynnu ar faint o amser sydd gennych chi
- Os byddwch chi'n glanio ar seren - gallwch neidio ymlaen ar y bwrdd. Rydych chi'n cael dymuniad genie am ddim - gallwch ofyn cwestiwn i'r chwaraewr arall am unrhyw bwnc
- Os byddwch chi'n glanio ar benglog - byddwch yn llithro yn ôl i lawr y bwrdd ac yn aros am eich tro nesaf
- Rydym yn eich gwahodd i fod yn greadigol ac yn fyfyrïol - efallai na fydd rhai cwestiynau'n berthnasol i chi yn uniongyrchol, ond gallai fod yn ddefnyddiol meddwl am yr adeg pan roeddech chi'n blentyn neu'n berson ifanc a bydd hynny, gobeithio, yn sicrhau bod y sgwrs yn parhau.



Cardiau Cwestiynau



?

Disgrifia ti dy hun mewn un gair...

Beth yw dy hoff fwyd neu ddiod?

Pe gallet ti gael unrhyw bŵer, beth fyddai hynny a pham?

Pe gallet ti deithio i unrhyw le yn y byd i ble fyddet ti'n mynd?

Beth wyt ti'n hoffi ei wneud am hwyl?

Pryd wnest ti deimlo'n falch ohonot ti dy hun ddiwethaf?

?

Pwy yw'r bobl yn dy fywyd yr wyt ti'n hoffi treulio amser gyda nhw?

Pa weithgareddau hwyliog wyt ti'n hoffi eu gwneud gyda theulu neu ffrindiau?

Ble wyt ti'n hoffi treulio amser gyda dy deulu neu ffrindiau?

Beth yw dy hoff beth am weld dy teulu?


Fyddet ti'n hoffi gweld mwy o unrhyw bobl bwysig yn dy fywyd? / Fyddet ti'n hoffi gweld llai o unrhyw bobl bwysig yn dy fywyd?

Gyda phwy wyt ti'n siarad os fyddi di angen rhywun i wrando arnat ti?

Cardiau sbâr



Cardiau Cwestiynau



?

Rydw i eisiau gwybod mwy am...

Alli di enwi un peth rwyt ti'n ei hoffi am ble rwyt ti'n byw?

Wyt ti'n mynd i dy gyfarfod adolygu? Fyddet ti'n hoffi gwneud hynny?

Wyt ti'n gwybod pwy yw'r Comisiynydd Plant? Os wyt ti, wyt ti'n gwybod beth maen nhw'n ei wneud?

Wyt ti'n gwybod beth yw eiriolwr? Fyddet ti'n hoffi un?

Alli di enwi unrhyw hawliau sydd gen ti?

?

Beth yw dy hoff bwnc yn yr ysgol?

Beth wyt ti'n ei hoffi orau am yr ysgol?

Oes unrhyw un yn dy helpu yn yr ysgol? Pwy yw'r person hwnnw?

Beth nad wyt ti'n ei hoffi am yr ysgol?

Beth wyt ti'n edrych ymlaen ato yn yr ysgol?

Beth wyt ti'n hoffi ei fwyta yn yr ysgol?

?

Un peth da sydd wedi digwydd i mi yr wythnos hon yw...

Wyt ti'n meddwl bod y bwyd rwyt ti'n ei fwyta yn iach?

Pa mor hapus wyt ti'n teimlo heddiw?

Beth wyt ti'n ei wneud pan fyddi di'n teimlo'n sâl?

Pa ymarfer corff/chwaraeon wyt ti'n hoffi ei wneud?

Alli di enwi tri gweithiwr iechyd proffesiynol y gallet ti eu gweld pe byddet ti angen hynny (h.y. meddyg?)